# Gweithredu gweithdrefnau ar gyfer bilio a chasglu taliadau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â bilio a chasglu taliadau trethi sy'n ddyledus i'r awdurdod. Mae'n cynnwys pennu i ble y dylid anfon y bil, cyflwyno biliau (hysbysiadau galw am dalu) a phrosesu dulliau talu.

Yn y safon hon, mae'r term 'trethi' yn cyfeirio at y dreth gyngor, ardrethi domestig yng Ngogledd Iwerddon ac ardrethi annomestig.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

P1 cadarnhau cyfeiriad bilio'r parti atebol

P2 gweithredu gweithdrefnau olrhain lle bo'n angenrheidiol, a helpu yn y broses olrhain os yw'n ofynnol

P3 cyflwyno hysbysiad galw am dalu, gan sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, ynghyd â dogfennau perthnasol lle bo'n angenrheidiol

P4 cyflwyno hysbysiadau galw am dalu diwygiedig lle bo'n angenrheidiol

P5 pennu dulliau talu ac amlder y taliadau, yn unol â gweithdrefnau statudol a lleol perthnasol

P6 prosesu ceisiadau neu hysbysiadau am newidiadau i'r dulliau talu

P7 rhoi gwybod i bartïon atebol am unrhyw hawliau i apelio sydd ganddynt o bosib

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

*Y Fframwaith Statudol
*

K1 pwrpas hysbysiadau galw am dalu a'u gofynion statudol

K2 yr amseriadau ar gyfer cyflwyno hysbysiadau galw am dalu

K3 hawliau partïon atebol i apelio yn erbyn hysbysiad galw am dalu

*Yr Amgylchedd Trethi
*

K4 dulliau o gadarnhau cyfeiriad bilio partïon atebol

K5 dulliau o olrhain partïon atebol a'r swyddfeydd neu'r cyrff perthnasol

K6 yr elfennau ar gyfer pennu maint y rhandaliadau a pha mor aml y cânt eu talu

K7 yr amgylchiadau lle gallai dulliau talu newid

**Y Sefydliad**

K8 y gwahanol opsiynau talu/casglu sydd ar gael, pa mor effeithiol ydynt a'u teilyngdodau perthnasol

K9 y gweithdrefnau ar gyfer casglu taliadau

K10 at bwy i gyfeirio materion nad ydynt o fewn eich cyfrifoldeb neu'ch cylch gwaith

K11 gweithdrefnau ar gyfer cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ddiogelu data berthnasol

Gweithredu gweithdrefnau ar gyfer bilio a chasglu taliadau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Asset Skills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Hyd 2013 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2017 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Y Bartneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | LT3 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid, Cyfrifyddu a chyllid |
| **Cyfres/Set** | Gweinyddu Refeniw Lleol a Budd-daliadau |
| **Geiriau Allweddol** | Gweinyddu refeniw lleol; cynnal a chadw cofnodion o eiddo; pennu atebolrwydd a'r symiau sy'n ddyledus; gweithredu gweithdrefnau ar gyfer bilio a chasglu taliadau; adfer a gorfodi symiau sy'n orddyledus; gwerthuso hawliadau am fudd-daliadau; cyfrifo a thal |